

Arolygiad Ysbyty (Dilydol – Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Ysbyty Sirol, Ward Wysg

Dyddiad Arolygu: 15 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: **Error! Hyperlink reference not valid.**

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	7
	Ansawdd Profiad y Claf	7
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	13
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
6.	Y Camau Nesaf	23
	Atodiad A.....	24

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.


Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd (dilynol) o Ward Wysg, Ysbyty Sirol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 15 Tachwedd 2016.

2. Methodoleg

Mae gennym amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael i ni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu i ni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bod y sylw cynyddol a gynigir gan ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd ac rydym yn arolygu ac yn adrodd yn erbyn tair thema:

- **Ansawdd Profiad y Claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un rheolwr arolygu (a arweiniodd yr arolygiad) ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau, a chyfweliadau gyda staff
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd
- Ymatebion mewn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion mewn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach yn gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r ddarpariaeth o wasanaethau'n sicrhau urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Hydref 2009 ac mae'n gwasanaethu ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Mae Ysbyty Sirol yn ysbyty cymuned sy'n darparu gwasanaethau cleifion mewnol a chleifion allanol i drigolion Torfaen. Mae wedi ei leoli yng nghanol Gwent, wyth milltir i'r gogledd o ddinas Casnewydd a 12 milltir i'r de o'r Fenni. Mae'r ysbyty yn derbyn cleifion sy'n byw yn Nhorfaen fel rheol, o Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall, ar gyfer adsefydlu ar ôl strôc neu lawdriniaeth orthopedig, yn ogystal ag ar gyfer gwellhad cyffredinol.

Mae'r ysbyty hefyd yn darparu ar gyfer cleifion sy'n aros am leoliad mewn cartrefi gofal nyrsio neu breswyl. Cymerir derbyniadau uniongyrchol o gartref i welyau meddygol ymarferwyr cyffredinol.

Ward adsefydlu orthopedig fu ward Wysg yn hanesyddol, er bod llawer o gleifion a dderbynnir i'r ward yn hŷn erbyn hyn, rhai ag anghenion corfforol cymhleth a/neu ddiagnosis o ddementia. Ceir 17 gwely ar ward Wysg ac mae'r ward yn derbyn cleifion benywaidd yn unig. Mae'r ward mewn hen adeilad. Mae coridor hir yn gwahanu cilfan naw gwely ar un pen a chilfan wyth gwely ar y pen arall. Mae un ciwbicl sengl ar gael.

4. Crynodeb

Prif ddiben yr arolygiad hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar gynnydd y bwrdd iechyd o ran mynd i'r afael â'r gwelliannau yr oedd angen eu gwneud o'n harolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2015. Er bod y bwrdd iechyd yn gallu dangos bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad blaenorol, roedd angen sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu monitro a'u cyflawni ar sail barhaus.

Cawsom sgysiau anffurfiol gyda chleifion ac ymwelwyr yn ystod ein harolygiad, a gofynnwyd iddynt roi eu safbwyntiau i ni ar amgylchedd y ward, staff yr ysbyty, a'r gofal yr oeddent wedi ei dderbyn. Cadarnhaodd ein trafodaethau fod y cleifion yn hapus gyda'u gofal yn gyffredinol.

Canfuwyd gennym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud i gynnal amgylchedd ward cyfforddus, i'r ddarpariaeth o wybodaeth i gleifion ac ymwelwyr, ac o ran sicrhau bod hawliau pobl yn cael eu diogelu trwy ddefnydd priodol o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Roedd angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau pellach i wneud gwelliannau parhaus o ran staff yn asesu anghenion ymataliaeth cleifion fel mater o drefn, asesu poen, ac anghenion gofal iechyd y geg. Roedd angen adolygu hefyd pam nad oedd camau yn ymwneud â'r ddarpariaeth o ysgogiad priodol i gleifion â dementia a dryswch wedi cael eu cymryd eto.

Canfuwyd gennym fod llwybr cyson ar gyfer rheoli'r perygl o gleifion yn datblygu briwiau pwysu ac o ran rheoli diabetes. Yn gyffredinol, roedd trefniadau priodol ar waith o ran rheoli heintiau. Canfuwyd gennym fod gwelliant sylweddol wedi cael ei wneud o ran trefn a manylder y broses cadw cofnodion.

Canfuwyd gennym fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran maetheg a hydradu ond bod angen gwella agweddau ar y profiad amser bwyd a diweddarau siartiau bwyd a hylif ymhellach.

Canfuwyd gennym fod angen gwelliannau pellach i sicrhau bod gan staff fynediad at yr offerynnau priodol i gefnogi cyfathrebiad â chleifion â cholled clyw/anghenion cyfathrebu ychwanegol ac o ran sicrhau bod amgylchedd y ward yn gwbl hygyrch, yn enwedig i'r cleifion hynny â dryswch a/neu ddementia. Roedd hyn yn cael sylw ar lefel y bwrdd iechyd. Roedd meddyginiaethau yn cael eu cadw'n ddiogel, ond mae angen gwelliannau cyffredinol ar ddwy agwedd ar reoli meddyginiaethau.

Dynododd ein harsylwadau ar adeg ein harolygiad bod digon o staff â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion gofal y cleifion.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Cawsom sgysiau anffurfiol gyda chleifion ac ymwelwyr yn ystod ein harolygiad, a gofynnwyd iddynt roi eu safbwyntiau i ni ar amgylchedd y ward, staff yr ysbyty, a'r gofal yr oeddent wedi ei dderbyn. Cadarnhaodd ein trafodaethau fod y cleifion yn hapus gyda'u gofal yn gyffredinol.

Canfuwyd gennym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud i gynnal amgylchedd ward cyfforddus, i'r ddarpariaeth o wybodaeth i gleifion ac ymwelwyr, ac o ran sicrhau bod hawliau pobl yn cael eu diogelu trwy ddefnydd priodol o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Roedd angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau pellach i wneud gwelliannau parhaus o ran staff yn asesu anghenion ymataliaeth cleifion fel mater o drefn, asesu poen, ac anghenion gofal iechyd y geg. Roedd angen adolygu hefyd pam nad oedd camau yn ymwneud â'r ddarpariaeth o ysgogiad priodol i gleifion â dementia a dryswch wedi cael eu cymryd eto.

Gofal ag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1)

Cadarnhaodd ein trafodaethau gyda chleifion ac ymwelwyr fod lefel uchel o fodlonrwydd gyda'r gofal a'r driniaeth a ddarperir. Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol dros ben am eu perthynas gyda'r staff ac roedd yn eglur bod y staff yn adnabod y cleifion yn dda. Gwelsom rymgweithio caredig, gofalgar a pharchus rhwng y staff a'r cleifion.

Yn ein harolygiad diwethaf o'r ward, canfuwyd gennym fod cloeon ar ddrysau sawl ystafell ymolchi wedi torri. Nid oedd dull ar waith i ddynodi pryd yr oedd cleifion yn defnyddio ystafelloedd ymolchi chwaith, a allai beryglu'r gallu i sicrhau urddas cleifion. Canfuwyd gennym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud gan fod arwyddion '*vacant*' ac '*in use*' yn cael eu defnyddio bellach. Canfuwyd gennym fod clo ar ddrws un ystafell ymolchi wedi torri ond fe'n sicrhawyd bod hyn wedi cael ei adrodd. Ers yr arolygiad diwethaf, roedd thermomedrau wedi cael eu gosod yn yr ystafelloedd ymolchi i alluogi'r staff i

wirio tymheredd yr amgylchedd, a chanfuwyd gennym fod tymheredd cyfforddus yn cael ei gynnal ym mhob rhan o'r ward.

Dynododd sylwadau gan gleifion yn ein harolygiad diwethaf eu bod weithiau'n teimlo eu bod yn cael eu brysio gyda'u trefnau gofal personol yn y bore. Canfuwyd gennym fod lefelau staffio wedi cael eu haddasu i ganiatáu aelod ychwanegol o'r staff nyrsio ar gyfer sifftiau nos, a oedd yn parhau hyd y bore. Gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion mewn modd nad oedd yn frysiog i ddiwallu eu hanghenion. Cadarnhaodd ein trafodaethau gyda'r cleifion hefyd eu bod yn teimlo bod y staff yn gallu diwallu eu hanghenion yn brydlon er eu bod yn brysur.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion gofal cleifion yn ystod yr arolygiad hwn, gan ganolbwyntio ar asesu a gofal ymataliaeth ac asesu poen. Roedd hyn oherwydd gwelliannau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol.

Cadarnhawyd gan y staff yn ystod yr arolygiad hwn eu bod yn asesu anghenion ymataliaeth y cleifion wrth eu rhyddhau ac yn asesu anghenion ymataliaeth cleifion yn barhaus hefyd. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o anghenion ymataliaeth cleifion yn cael eu hasesu'n llawn yn ystod arosiadau'r cleifion yn y cofnodion i ni eu hadolygu. Canfuwyd gennym fod y sesiwn hyfforddi a gynlluniwyd gyda'r nyrs ymataliaeth arbenigol yn dilyn ein harolygiad blaenorol wedi cael ei chynnal a gwelsom rai cofnodion o ofal ymataliaeth yn nodiadau'r cleifion. Gwelsom fod y bwndel gofal cathetr yn cael ei ddefnyddio hefyd. Roedd hwn yn dynodi bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud. Fodd bynnag, roedd angen sicrhau bod asesiadau ymataliaeth yn cael eu cynnal fel mater o drefn er mwyn helpu i lywio rheolaeth briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn sicr bod anghenion ymataliaeth cleifion yn cael eu hasesu fel mater o drefn i lywio rheolaeth briodol.

Canfuwyd gennym fod siartiau NEWS (Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol) ar waith ond canfuwyd gennym yn y cofnodion i ni eu hadolygu fod cofnodion o sgoriau poen cleifion yn anghyson. Rhoddodd ein harsylwadau a thrafodaeth gyda chleifion rywfaint o sicrwydd i ni fod poen cleifion yn cael ei reoli'n effeithiol gan y tîm staff. Fodd bynnag, nid oedd dystiolaeth lawn o hyn yn y nodiadau i ni eu gweld.

Mewn ymateb i'n harolygiad blaenorol, dywedodd y bwrdd iechyd y byddai'n cyflwyno Graddfa Boen Abbey¹ erbyn mis Mehefin 2015 i gynorthwyo'r gwaith o fonitro a gwerthuso cleifion na allant gyfleu poen ar lafar. Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant wedi cychwyn erbyn hyn. Fodd bynnag, nid oedd yr offeryn hwn wedi cael ei gyflwyno'n llawn eto. O ystyried natur newidiol y ward o ran niferoedd cynyddol o gleifion ag anghenion cymhleth, anghenion iechyd meddwl, a dryswch a dementia, mae angen rhoi'r offeryn hwn ar waith yn llawn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw'r defnydd o'r offeryn asesu poen a nodwyd wedi cael ei gyflwyno'n llawn. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi eu hasesiadau o boen cleifion, eu gwerthusiad o'r camau a gymerwyd i leddfu poen cleifion, ac unrhyw gamau pellach a gymerwyd yn dilyn y gwerthusiad hwn.

Nododd ein harolygiad blaenorol yr angen i sicrhau bod anghenion iechyd y geg cleifion yn cael eu hasesu fel mater o drefn. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd yn ei gynllun gwella y byddai'r holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol ac y byddai'r offeryn asesu iechyd y geg ar waith erbyn mis Mai 2015. Cadarnhaodd y staff nad oedd hyn wedi digwydd oherwydd anawsterau o ran y staff yn cael mynediad at hyfforddiant priodol, sy'n golygu mai dim ond prif nyrs y ward a oedd wedi derbyn hyfforddiant hyd yn hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw'r defnydd o'r asesiad iechyd y geg wedi cael ei gyflwyno. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion iechyd y geg cleifion yn cael eu hasesu fel mater o drefn i lywio rheolaeth briodol.

Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy, ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal. (Safon 4.2)

¹ Mae Graddfa Boen Abbey wedi ei chynllunio i gynorthwyo'r asesiad o boen ymhlith y cleifion hynny na allant gyfleu eu hanghenion yn eglur.

Canfuwyd gennym yn dilyn ein harolygiad blaenorol bod gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran sicrhau bod cleifion a pherthnasau yn cael eu diweddarau am wybodaeth ynghylch gofal a thriniaeth trwy gydol eu harhosiad.

Canfuwyd gennym fod taflenni gwybodaeth ward wedi cael eu cynhyrchu a'u bod yn cael eu rhoi i'r holl gleifion wrth eu derbyn. Dywedodd y staff fod perthnasau weithiau'n mynd â'r copïau hyn i ffwrdd gyda nhw. Cynghorir y ward i sicrhau bod copïau o'r daflen hon ar gael yn rhwydd ar y ward i gleifion bob amser. Roedd y bwrdd iechyd hefyd yn rhannu'r dysgu o ward Wysg ac yn gwneud gwelliannau i daflen wybodaeth isadrannol (taflen yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n berthnasol i gleifion ar draws wardiau ysbyty).

Gwelsom fod llawer o hysbysfyrddau cleifion a pherthnasau wedi cael eu gosod ac roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol. Dywedodd y staff wrthym fod clinigau gofalwyr wedi cael eu cyflwyno ond nad oeddent wedi bod yn effeithiol oherwydd diffyg diddordeb, a chawsant eu dirwyn i ben.

Roedd y cleifion a'r perthnasau i ni siarad â nhw yn ymwybodol o'r cynllun ar gyfer eu gofal a'u triniaeth a dywedasant wrthym eu bod yn derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Gofal unigol

Rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut y maent yn gofalu amdanynt hwy eu hunain gan fod cynnal annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1)

Cynhaliwyd ein harolygiad blaenorol ar adeg pan oedd natur y ward yn newid o ward adsefydlu orthopedig i un yn darparu gofal a thriniaeth fwy cyffredinol i'r henoed. Dywedodd staff fod y newid hwn wedi datblygu ymhellach dros y 18 mis diwethaf a'u bod yn gweld niferoedd cynyddol o gleifion â dementia, dryswch ac anghenion iechyd meddwl a chleifion oedrannus yn aros i gael eu rhyddhau.

Roedd tîm y ward yn gweithio gydag aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaeth i ddarparu gwasanaethau gofal a therapi adsefydlu i gleifion. Roeddem yn gallu dod o hyd i gynlluniau a chofnodion ffisiotherapi a therapi galwedigaethol yng nghofnodion y cleifion a gwelsom y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol – er enghraifft, trwy ymweliadau â'r ward gan y tîm ffisiotherapi. Gwelsom fod cynlluniau gofal yn nodi'r meysydd lle gellid annog annibyniaeth cleifion a gwelsom y rhain yn cael eu rhoi ar waith mewn achosion o ryngweithio rhwng staff y ward a'r cleifion.

Gwelsom fod anghenion cleifion penodol o ran hybu annibyniaeth yn cael eu rhannu wrth drosglwyddo ac roedd hysbysfyrddau cipolwg ar statws cleifion manwl wedi'u gosod, a oedd yn dynodi anghenion unigol cleifion.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth yn cael eu cynnal a oedd yn cynnwys staff gofal iechyd, gofal cymdeithasol a therapi i gynllunio rhyddhad cleifion. Gwelsom fod cofnodion wedi cael eu llunio yn nodi'r camau a gytunwyd o'r cyfarfodydd hyn. Dywedodd y cleifion i ni siarad â nhw eu bod yn eglur ynghylch y cynlluniau ar gyfer eu rhyddhau.

Gallem weld yn gyffredinol felly bod y bwrdd iechyd wedi cymryd camau i wneud gwelliannau i gynllunio gofal i hybu annibyniaeth.

Fodd bynnag, roedd un maes penodol lle'r oedd angen gwella ymhellach. Argymhellwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf bod gwelliannau'n cael eu gwneud i sicrhau bod gan gleifion, a'r rhai â dryswch neu ddementia yn arbennig, fynediad at ysgogiad priodol i gefnogi sgiliau i'w cynnal yn ystod eu harhosiad, yn enwedig o ystyried hyd cynyddol arosiadau'r cleifion. Canfuwyd gennym nad oedd y gweithgareddau wedi'u trefnu rheolaidd yr oedd y bwrdd iechyd yn bwriadu eu cyflwyno yn digwydd. Nid oedd oriau gweithwyr cymorth gofal iechyd, yr oedd y bwrdd iechyd wedi bwriadu eu cyhoeddi i gefnogi hyn, wedi cael eu cyhoeddi. Roedd staff uwch a staff ward wedi cysylltu â sefydliadau trydydd sector mewn ymdrech i hybu gweithgareddau hamdden ond nid oedd unrhyw arwydd amlwg bod hyn wedi cael ei gyflwyno ar y ward. Er bod y cynllun gwella yn nodi bod gweithgarwch ystyrion yn cael ei hybu trwy wneud llyfrau, gemau a phethau cofiadwy ar gael, ni welsom hyn yn ymarferol. Gwelsom y staff yn annog rhai cleifion i fynd i'r ystafell ddydd i wyllo'r teledu, ond roedd diffyg gweithgareddau eraill i ddiddanu neu annog sgiliau gwybyddol i gael eu cynnal. Esboniodd staff uwch o'r bwrdd iechyd eu bod yn gweithio i hybu amgylcheddau a gweithgareddau mwy ystyriol o ddementia ac yn bwriadu treialu hyn ar un ward cyn ei gyflwyno ar wardiau eraill. Fodd bynnag, o ystyried yr amser a oedd wedi mynd heibio ers ein harolygiad blaenorol, ni allem fod yn sicr bod ymrwymiad i wneud gwelliannau yn hyn o beth, ar ward Wysg, wedi cael ei gyflawni.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw'r gwelliannau a gynlluniwyd o ran y ddarpariaeth o weithgareddau ac ysgogiad priodol i gleifion (yn enwedig y rhai â dementia a dryswch) wedi cael eu datblygu. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgiliau gwybyddol cleifion ar y ward yn cael eu cynorthwyo i gael eu cynnal.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod weithiau'n cael trafferth yn cael gafael ar wregysau priodol ar gyfer y teclynnau codi y maent yn eu defnyddio. Er na

welsom hyn yn effeithio ar ofal cleifion yn ymarferol, dylai'r bwrdd iechyd adolygu hyn i fod yn sicr bod gan staff fynediad at offer priodol bob amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn sicr bod gan y ward fynediad at wregysau priodol ar gyfer y teclynnau codi.

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2)

O dan y safon hon, canolbwyntiwyd gennym yn benodol ar sut yr oedd y ward yn sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu cynnal o ran asesiadau galluedd meddyliol, oherwydd canfyddiadau ein harolygiad blaenorol. Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gwelliannau wedi cael eu gwneud.

Gwelsom yn y cofnodion i ni eu hadolygu fod galluedd cleifion yn cael ei asesu lle bo'n briodol a bod unrhyw benderfyniadau a wnaed er budd pennaf cleifion yn cael eu cofnodi'n llawn yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Cadarnhaodd y staff fod yr hyfforddiant iechyd meddwl wedi'i deilwra a gynlluniwyd yn dilyn ein harolygiad blaenorol wedi cael ei ddarparu, ynghyd â diwrnod cwrdd i ffwrdd i uwch staff y ward a drafododd y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried sut y bydd yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant diweddarau ar sail barhaus.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Canfuwyd gennym fod llwybr cyson ar gyfer rheoli'r perygl o gleifion yn datblygu briwiau pwyso ac o ran rheoli diabetes. Yn gyffredinol, roedd trefniadau priodol ar waith o ran rheoli heintiau. Canfuwyd gennym fod gwelliant sylweddol wedi cael ei wneud o ran trefn a manylder y broses cadw cofnodion.

Canfuwyd gennym fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran maetheg a hydradu ond bod angen gwella agweddau ar y profiad amser bwyd a diweddarau siartiau bwyd a hylif ymhellach.

Canfuwyd gennym fod angen gwelliannau pellach i sicrhau bod gan staff fynediad at yr offerynnau priodol i gefnogi cyfathrebiad â chleifion â cholled clyw/anghenion cyfathrebu ychwanegol ac o ran sicrhau bod amgylchedd y ward yn gwbl hygyrch, yn enwedig i'r cleifion hynny â dryswch a/neu ddementia. Roedd hyn yn cael sylw ar lefel y bwrdd iechyd. Roedd meddyginiaethau yn cael eu cadw'n ddiogel, ond mae angen gwelliannau cyffredinol ar ddwy agwedd ar reoli meddyginiaethau.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a, lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1)

Er nad oedd amgylchedd y ward yn bwyslais penodol i'n harolygiad, gwelsom fod y ward yn lân ac yn daclus. Canfuwyd gennym fod sawl rhan wedi cael ei chlirio o annibendod ers ein harolygiad diwethaf ond roedd y staff yn dal i wynebu heriau o ran lle storio. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw fannau lle'r oedd hyn yn effeithio ar ddiogelwch cleifion.

O dan y safon hon, canolbwyntiwyd yn benodol ar sut yr oedd y ward yn sicrhau bod yr amgylchedd yn hygyrch i gleifion. Nododd ein harolygiad blaenorol yr angen i'r amgylchedd gael ei wella er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i'r cleifion hynny â dryswch a/neu ddementia a chleifion ag anghenion cymhleth neu synhwyrdd.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod angen rhagor o welliannau yn hyn o beth. Er bod rhywfaint o godio lliw o rai manau, nid oedd hyn wedi cael ei wneud yn gyson ar draws y ward gyfan ac, fel y nodwyd yn ein harolygiad blaenorol, roedd hysbysfyrddau yn dangos y dyddiad, i gynorthwyo cyfeiriadedd cleifion,

yn dal i fod yn anodd eu gweld. Nid oedd clochau yn arbennig o amlwg chwaith. Roedd y staff wedi bwriadu creu ystafell ddydd hygyrch ystyriol o ddementia ac ni ddatblygwyd cynlluniau ar gyfer hyn ar ward Wysg, er gwaethaf dyddiad cwblhau o Dachwedd 2015 a nodwyd yn y cynllun gwella.

Dywedodd staff uwch wrthym fod cynlluniau ar gyfer amgylcheddau ward ystyriol o ddementia a chwbl hygyrch yn cael eu datblygu ar lefel y bwrdd iechyd ac roedd arweinydd prosiect newydd yn ei swydd bellach. Roedd y grŵp prosiect yn cynnwys cleifion a chynghorwyr perthnasol a allai gynorthwyo gweithrediad effeithiol. Dywedodd y staff wrthym fod disgwyl i hwn gael ei gyflwyno ar ward arall cyn ei gyflwyno ar draws y bwrdd iechyd ac y byddai ward Wysg yn cael ei hailwampio'n llawn ar ôl ei gyflwyno.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddiweddarau AGIC ar y cynnydd o ran cyflwyno amgylchedd ward hygyrch cwbl ystyriol o ddementia ar ward Wysg.

Mae pobl yn cael eu helpu i ofalu am eu croen a gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag datblygu briwiau pwysau a niwed i feinweoedd. (Safon 2.2)

Canfuwyd gennym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud o dan y safon hon yn dilyn ein harolygiad blaenorol.

Canfuwyd gennym fod y staff yn dilyn llwybr cyson o ran rheoli cleifion y nodwyd eu bod mewn perygl o ddatblygu briwiau pwysu. Canfuwyd gennym fod cynlluniau gofal ac asesiadau risg ar waith a bod camau priodol wedi cael eu cymryd o ganlyniad i'r asesiadau hyn. Roedd siartiau ar waith ac yn cael eu diweddarau'n gyson i sicrhau bod risgiau'n cael eu monitro'n barhaus.

Gwelsom yn y cofnodion i ni eu hadolygu fod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i'r nyrs hyfywedd meinwe a bod offer fel matresi lleddfu poen yn cael eu defnyddio. Gwelsom staff ar y ward (gan gynnwys staff ffisiotherapi a staff nyrsio) yn annog cleifion i symud pan fo hynny'n bosibl er mwyn lleihau'r risg o ddatblygu briwiau pwysu.

Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau

sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. (Safon 2.4)

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod trefniadau priodol ar waith o ran atal a rheoli heintiau. Canfuwyd gennym y gellid gwella cydymffurfiaid staff o ran hylendid dwylo.

Canfuwyd gennym fod holl rannau'r ward yn lân a bod amserlenni glanhau ar waith.

Roedd hylif dwylo ar gael ym mhob man, ond sylwyd gennym fod un peiriant hylif dwylo yn y coridor yn wag a hysbyswyd y staff bod angen ei ail-lenwi. Gwelsom sawl achlysur pan na wnaeth staff olchi eu dwylo rhwng tasgau/cleifion yn unol â chanllawiau arfer gorau. Gwelsom hefyd, er bod offer diogelwch personol ar gael ac yn cael eu defnyddio ar y ward, nid oeddent yn cael eu defnyddio'n briodol bob amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau, yn enwedig o ran sicrhau bod staff yn cydymffurfio'n gyson â chanllawiau hylendid dwylo a'r defnydd priodol o offer diogelwch personol.

Gwelsom fod gwybodaeth am gyfraddau heintiau yn cael ei chasglu ac wedi ei harddangos ar y ward fel bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda chleifion ac ymwelwyr.

Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5)

O dan y safon hon, canfuwyd gennym rai meysydd a oedd wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol a rhai meysydd a oedd angen rhagor o sylw. Dywedodd bron i bob claf i ni siarad ag ef ei fod yn fodlon gydag ansawdd y bwyd.

Gwelsom fod gan gleifion fynediad at hylifau (o fewn cyrraedd rhwydd) ac atchwanegiadau yn ôl y gofyn.

Gwelsom amser bwyd a chanfuwyd gennym fod hwn yn drefnus yn gyffredinol. Gwelsom fod niferoedd staff digonol i gynorthwyo'r cleifion gyda bwyta ac yfed

yn ôl y gofyn. Roedd amseroedd bwyd wedi'u diogelu ar waith i osgoi tarfu ar gleifion wrth iddynt fwyta eu prydau.

Canfuwyd gennym yn dilyn ein harolygiad blaenorol fod troli gweini yn cael ei ddefnyddio erbyn hyn i gludo prydau bwyd i ben arall y ward, o'r prif droli, er mwyn lleihau peryglon iechyd a diogelwch wrth gario platiau poeth. Fodd bynnag, gwelsom fod potensial o hyd i brydau oeri wrth eu dosbarthu fel hyn gan fod prydau yn cael eu gadael heb eu gorchuddio ar y troli gweini ar ôl cael eu gweini o'r prif droli. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd cleifion yn cael cynnig cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai staff adolygu ymhellach sut y mae prydau yn cael eu dosbarthu i gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn boeth. Dylid cynnig y cyfle i gleifion olchi eu dwylo cyn amser bwyd.

Gwelsom y gweinwyd diodydd rhai cleifion iddynt mewn cwpanau wedi'u selio i'w hatal rhag eu gollwng. Fodd bynnag, roedd y cwpanau yn fath o gwpan i blant ac ni allem fod yn sicr fod anghenion na dymuniadau pob claf wedi cael eu hasesu'n unigol o ran defnyddio'r cwpanau hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, pan ddefnyddir cwpanau wedi'u haddasu, bod anghenion a dymuniadau cleifion wedi cael eu hasesu o ran defnyddio'r cwpanau hyn, a'u bod yn fodol priodol sy'n diwallu anghenion y claf.

Roedd y cofnodion sampl i ni eu hadolygu yn dangos bod anghenion maetheg y cleifion yn cael eu hasesu a'u diweddarau. Gwelsom fod deietau arbennig yn cael eu hwyluso yn ôl y gofyn a gwelsom y staff yn cynnig amrywiaeth o opsiynau i'r cleifion o'r bwyd a oedd ar gael i fodloni dymuniadau a diwallu anghenion unigol.

Edrychwyd ar sampl o siartiau hylif a bwyd a chanfuwyd gennym nad oedd y siartiau hyn bob amser yn cael eu defnyddio na'u diweddarau yn gyson.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu pam nad oes gwelliannau wedi eu gwneud eto o ran defnyddio a diweddarau siartiau bwyd a hylif yn gyson – a dylid gwneud gwelliannau yn hyn o beth.

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6)

Canfuwyd gennym fod gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran storio meddyginiaethau'n ddiogel ers ein harolygiad blaenorol. Roedd yr ystafell driniaeth yn cael ei chadw'n ddiogel er mwyn atal mynediad i unigolion heb awdurdod.

Canfuwyd gennym y trefnwyd i archwiliadau cyffuriau a reolir gael eu cynnal bob wythnos yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, roedd hepgoriadau yn y cofnodion hyn a oedd yn golygu na allem fod yn sicr bod archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal yn gyson. Canfuwyd dau hepgoriad gennym hefyd yn y cofnodion o dymheredd oergelloedd meddyginiaeth. Ni allem fod yn sicr, felly, fod meddyginiaeth y mae angen ei chadw mewn oergell yn cael ei storio'n gywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau wythnosol o gyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn gyson a'u cofnodi yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Dylid monitro a chofnodi tymheredd oergelloedd yn gyson hefyd.

Roedd ein hadroddiad arolygu blaenorol wedi argymhell adolygu'r dull o storio'r silindr ocsigen a oedd yn cael ei gadw yn y coridor. Canfuwyd gennym fod adolygiad wedi cael ei gynnal a bod staff y ward wedi bod yn aros am ragor o gyngor ar storio priodol a diogel. Roedd y staff wedi cael eu hysbysu i adael yr ocsigen yn yr un man am y tro. Darparodd staff uwch arwyddion ar gyfer y ward yn dangos ble'r oedd yr ocsigen yn cael ei storio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gamau pellach wedi cael eu cymryd o ran yr adolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid rhoi cyngor priodol i'r ward ynghylch storio'r silindr ocsigen yn y coridor er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol.

Gofal effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i

ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1)

Canolbwyntiwyd o dan y safon hon ar ofal a thriniaeth cleifion diabetig.

Roedd llwybr gofal ar waith a gwelsom gynlluniau gofal wedi eu cwblhau mewn nodiadau cleifion a siartiau monitro yn cael eu diweddarau. Gwelsom fod y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn monitro glwcos gwaed. Fel y disgrifiwyd uchod, nodwyd gennym fod angen gwelliannau i sicrhau bod siartiau bwyd a hylif yn cael eu defnyddio a'u diweddarau'n gyson.

Wrth gyfathrebu gyda phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2)

Canfuwyd gennym o ganlyniad i'n harolygiad blaenorol fod angen gwelliannau i sicrhau bod gan staff yr offerynnau sydd eu hangen i'w galluogi i gyfathrebu â chleifion â cholled clyw ac anghenion cyfathrebu ychwanegol. Canfuwyd gennym fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran ymwybyddiaeth staff ond bod angen gwella o ran sicrhau bod yr offer priodol gan y staff.

Yn dilyn ein harolygiad, roedd y staff wedi mynychu gweithdai gwasanaeth cwsmeriaid ac roedd ymwybyddiaeth o golled clyw wedi cael ei hybu ar y ward trwy ddosbarthu taflen i'r staff. Dywedodd y staff wrthym er eu bod wedi defnyddio dolen sain gydag un claf penodol a oedd wedi dod ag un ei hun, nid oedd ganddynt fynediad at ddolen sain o hyd, nac unrhyw offerynnau cyfathrebu eraill, i'w cynorthwyo i gyfathrebu â chleifion â cholled clyw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y staff fynediad at yr offerynnau sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i gyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion â cholled clyw ac anghenion cyfathrebu ychwanegol.

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol. (Safon 3.5)

Roedd ein harolygiad blaenorol wedi nodi bod angen gwelliannau ar unwaith a sylweddol i ddogfennau. Canfuwyd gwelliannau sylweddol gennym i drefn

cofnodion cleifion. Roeddem yn gallu dilyn llwybr y claf o'r cofnodion a adolygwyd ac roedd gwybodaeth gyfredol a oedd yn hawdd ei dilyn, gan gynnwys nodiadau o gyfarfodydd aml-ddisgyblaeth a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Canfuwyd gennym hefyd fod yr holl gofnodion wedi eu storio'n briodol trwy gydol yr arolygiad.

Rydym wedi nodi gwelliannau sydd eu hangen i agweddau ar ddogfennau yn y safonau uchod ac mae'r rhain yn ymwneud ag:

- Offerynnau sgorio poen
- Asesiadau ymataliaeth
- Siartiau bwyd a hylif

Fodd bynnag, canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gwelliannau wedi eu gwneud a bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg llawn a manwl ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Dynododd ein harsylwadau ar adeg ein harolygiad bod digon o staff â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion gofal y cleifion.

Er bod y bwrdd iechyd yn gallu dangos bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad blaenorol, roedd angen sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu monitro a'u cyflawni ar sail barhaus.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen. (Safon 7.1)

Gwelsom arweinyddiaeth gref ar y ward a thîm staff gofalgaf, ymrwymedig ac ymroddgar. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr uwch reolwyr. Roedd tair nyrs gofrestrdedig (gan gynnwys rheolwr y ward), un nyrs dan hyfforddiant a thri gweithiwr cymorth gofal iechyd yn gweithio ar y ward ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yn ei ymateb i'n harolygiad blaenorol, disgrifiodd y bwrdd iechyd amrywiaeth o gamau i sicrhau bod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion cleifion ar y ward. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom staff yn ymateb i geisiadau cleifion yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y gellid gofyn am staff ychwanegol i sicrhau bod digon o staff yn gweithio ar y ward, gan gynnwys staff banc. Pan na ellir cael gafael ar staff ychwanegol, fe'n hysbyswyd bod hyn yn cael ei uwchgyfeirio at y bwrdd iechyd drwy'r system hysbysu am ddigwyddiadau ar gyfer adolygiad. Gwelsom enghreifftiau o hyn yn ymarferol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r camau a ddisgrifiwyd gan y bwrdd iechyd yn ei gynllun gwella.

Bu rhai newidiadau diweddar i'r staff rheoli ar y ward, yn ogystal â newidiadau staff drwy'r strwythur rheoli uwchben lefel y ward. Roedd hyn yn golygu bod staff newydd yn gweithio mewn nifer o feysydd allweddol. Fe'n sicrhawyd bod digon o staff wrth gefn trwy drefniadau dros dro ac roedd y staff yn eglur ynghylch trefniadau hysbysu drwy'r strwythur hwnnw.

Oherwydd newidiadau staff diweddar, dywedodd y staff wrthym y bu heriau weithiau o ran staff rheoli'r ward yn cael mynediad at yr amser ychwanegol yr oedd ei angen arnynt. Trafodwyd hyn gyda'r staff rheoli uwch, a oedd wedi ymrwymo i sicrhau bod hyn yn digwydd yn barhaus nawr bod trefniadau dros dro cadarn wedi cael eu rhoi ar waith. Canfuwyd gennym fod yr amser hwn

wedi cael ei gytuno ar lefel y bwrdd iechyd a'i gynnwys ar y rhestr ddyletswyddau.

Gwelsom fod cydymffuriad o ran mynediad staff at adolygiadau datblygu personol wedi gwella ac roedd gan yr holl staff adolygiad cyfredol ar waith erbyn hyn. Gwelsom hefyd fod matrices hyfforddiant lefel ward ar waith a ddefnyddiwyd i fonitro anghenion hyfforddi'r staff ar sail barhaus. Gwelsom fod targed i gynyddu cydymffuriad o ran hyfforddiant o 20% erbyn mis Mehefin 2015 wedi cael ei gyflawni. Roedd hyfforddiant staff ar draws nifer o feysydd wedi gwella, er enghraifft mewn meysydd a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol fel amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, gwelsom fod cydymffuriad is ar hyn o bryd mewn meysydd eraill (55% ac is) fel rheoli heintiau, anaffylacsis a Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. Dywedodd y staff wrthym fod dyddiad wedi ei gadarnhau ar gyfer hyfforddiant anaffylacsis a diwrnod astudio rheoli heintiau ond eu bod weithiau'n cael anawsterau yn rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael eu cynorthwyo i gadw'n gyfredol o ran hyfforddiant ar draws pob maes ar sail barhaus.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy. (Y Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2, Tudalen 8)

Yn dilyn yr arolygiad blaenorol, gwelsom fod y staff wedi rhoi eu cynllun a'u system fonitro eu hunain ar waith i sicrhau eu bod yn cyflawni'r camau yr oeddent wedi ymrwmo iddynt ar lefel ward. Roedd y cynllun a'r dystiolaeth a gasglwyd gan staff y ward yn eglur, yn fanwl, ac yn dangos y meysydd yr oeddent wedi bod yn gweithio arnynt. Fodd bynnag, wrth fynd i mewn i 2016, gwelsom y cynhaliwyd llai o bwyslais ar fonitro hyn ac roedd angen cynnal y momentwm er mwyn sicrhau bod yr holl gamau a gwelliannau yn cael eu cyflawni, fel y cytunwyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system gadarn ar waith i ganiatáu trosolwg digonol a sicrhau bod camau gweithredu yr ymrwymir iddynt yng nghynlluniau gwella AGIC yn cael eu cyflawni ar sail barhaus.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd yn monitro gwelliannau trwy adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'i fod hefyd wedi cynnal ei arolygiad ei hun (archwiliad ansawdd) o'r ward. Gwelsom fod rhaglen archwilio ar waith ond nad oedd archwiliadau bob amser yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlenni a nodwyd gan y bwrdd iechyd. Dywedodd y staff wrthym fod cynllun ar waith i roi sylw i hyn nawr bod trefniadau staffio dros dro cadarn ar waith gydag amser ychwanegol neilltuedig.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/unedau eraill y bwrdd iechyd.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Sirol


Ward / Adran: Ward Wysg

Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2016


Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf				
8	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn sicr bod anghenion ymataliaeth cleifion yn cael eu hasesu fel mater o drefn i lywio rheolaeth briodol.	<p>Cwblheir asesiadau ymataliaeth (cyffredinol) ar gyfer pob claf wrth ei dderbyn. Os nodir fod angen cymorth ymataliaeth wrth ryddhau, cwblheir asesiad llawn ac fe'i hanfonir at dîm ymataliaeth arbenigol i sicrhau ansawdd a hwyluso cyflenwadau parhaus.</p> <p>Ceir sicrwydd o gydymffurfiad ag asesiad bwndel ymataliaeth trwy amserlen cyfres archwiliadau'r isadran gymunedol. Caiff cydymffurfiad ei fonitro'n ganolog trwy'r tîm Ansawdd a Diogelwch</p>	Uwch Nyrs	Ebrill 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Cleifion isadrannol a chaiff unrhyw ddiffygion o ran cydymffurfiad eu huwchgyfeirio at uwch nyrs i'w datrys. Gofynnwyd i nyrs gyswllt y tîm ymataliaeth isadrannol ddarparu hyfforddiant diweddarw wedi'i deilwra i sicrhau gwelliant i gydymffurfiad y ward.		
9	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw'r defnydd o'r offeryn asesu poen a nodwyd wedi cael ei gyflwyno'n llawn. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi eu hasesiadau o boen cleifion, eu gwerthusiad o'r camau a gymerwyd i leddfu poen cleifion, ac unrhyw gamau pellach a gymerwyd yn dilyn y gwerthusiad hwn.	<p>Mae siart poen Graddfa Poen PNNAID (neu ddewis priodol arall), a ddatblygwyd i gynorthwyo'r rheolaeth o asesu poen cleifion â dementia, wedi cael ei chyflwyno. Caiff cydymffurfiad ei fonitro trwy archwiliadau chwe misol ar draws pob ward gymunedol. Yn dilyn arolygiad AGIC, bydd amllder yr archwiliadau cydymffurfiad yn cael ei gynyddu i bob mis tan y gellir cael sicrwydd bod staff y ward yn cydymffurfio'n llawn.</p> <p>Mae'r offeryn sgôr poen dementia yn nodiadau cleifion ar yr erchwyn bellach pan fo'n briodol. Mae nyrsys cofrestredig yn archwilio ac yn cwblhau asesiadau sgôr poen ar siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol erbyn hyn. Mae'r siart lif uwchgyfeirio Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol wedi'i lamineiddio ar gael yn y</p>	Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		gorlan nyrsio ac ar yr hysbysfwrdd cipolwg ar statws cleifion ac mae'n parhau i fod yn rhan o drefn briffio diogelwch y ward.		
9	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw'r defnydd o'r asesiad iechyd y geg wedi cael ei gyflwyno. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion iechyd y geg cleifion yn cael eu hasesu fel mater o drefn i lywio rheolaeth briodol.	Cychwynnwyd bwndel iechyd y geg gyda'r ward. Lluniwyd cynllun gofal y geg gan staff y ward i gael ei gynnwys mewn cynlluniau gofal cleifion unigol. Er bod dyddiadau ar gyfer hyfforddiant ar gael yn eang ar draws y bwrdd iechyd, bu anawsterau parhaus o ran rhyddhau staff oherwydd lefelau sylweddol o salwch hirdymor ar lefel uwch yn ystod 2016. Nodwyd hyn gan Vicky Jones, arweinydd gwasanaethau deintyddol cymunedol drwy'r tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r hyrwyddwr bwndel gofal y geg. Hyrwyddwr isadrannol i gael ei benodi i gynorthwyo gwell cydymffurfiad.	Uwch Nyrs / Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol	Chwefror 2017
11	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd archwilio'r rhesymau pam nad yw'r gwelliannau a gynlluniwyd o ran y ddarpariaeth o weithgareddau ac ysgogiad priodol i gleifion (yn enwedig y rhai â dementia a dryswch) wedi cael eu datblygu. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgiliau gwybyddol cleifion ar y ward yn cael eu cynorthwyo i gael eu cynnal.	Amlygodd arolygiad diweddar a gynhaliwyd ym mis Medi 2016 ar ward Wysg gan ddefnyddio'r offeryn arolygu ar gyfer archwiliadau ansawdd iechyd y diffyg cynnydd parhaus o ran y gwelliannau arfaethedig i'r ystafell ddydd i wella'r amgylchedd presennol, y cydnabyddir nad yw'n cymell ysgogiad a chymdeithasu i gleifion â nam	Nyrs Arwain Isadrannol / Rheolwr Cyffredinol	Ebrill 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>gwybyddol (gweler deunydd ynghlwm).</p>  <p>SKM_C554e1609131 5450.pdf</p> <p>Uwchgyfeiriwyd hyn at y tîm nyrsio corfforaethol fel pryder sylweddol. Mae safle'r Ysbyty Sirol yn destun adolygiad ar hyn o bryd i benderfynu ar ei ymarferoldeb yn y dyfodol ar gyfer darparu gofal cleifion mewnol yn dilyn cymeradwyaeth ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i'r Ganolfan Arbenigol a Chritigol. Nodir safle'r Ysbyty Sirol ar y gofrestr risg cyfalaf gyda sgôr risg o 20+ ar gyfer gwaith atgyweiriol brys. Amlygwyd y mater hefyd yn yr adroddiad a ddarparwyd i'r cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion isadrannol ac fe'i huwchgyfeiriwyd drwy'r grŵp gweithredol Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch</p>		
12	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn sicr bod gan y ward fynediad at wregysau priodol ar gyfer y teclynnau codi.	Mae pob ward ac adran yn y bwrdd iechyd wedi bod yn rhan o arolygiad LOLER parhaus dan arweiniad y tîm Iechyd a Diogelwch i sicrhau bod argaeledd ac addasrwydd gwregysau a theclynau codi cleifion yn diwallu'r angen. Caiff	Nyrs Arwain Isadrannol / Tîm Iechyd a Diogelwch	Parhaus

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		hyn ei fonitro drwy'r tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion isadrannol a'i hysbysu i'r cynghorydd codi a chario arweiniol trwy Bwyllgor Iechyd a Diogelwch BIPAB.		
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				
14	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddiweddarau AGIC ar y cynnydd o ran cyflwyno amgylchedd ward hygyrch cwbl ystyriol o ddementia ar ward Wysg.	<p>Mae BIPAB yn bwrw ymlaen â'r strategaeth amgylcheddol amlinellol. Mae hon yn cael ei harwain gan y nyrs arwain gorfforaethol dros ddementia, sy'n gyfrifol am ddatblygu strategaeth amgylchedd y bwrdd iechyd, hwyluso'r arbenigedd dan sylw, ac egluro'r addasiadau ar wardiau dementia a wardiau cyffredinol ac esbonio'r hyn y mae ystyriol o ddementia yn ei olygu ac argymhellion o addasiadau ar gyfer anabledd. Mae'r fenter hon yn rhan o waith y Pwyllgor Amgylchedd ac yn cysylltu â chanlyniadau'r Bwrdd Dementia, sy'n gysylltiedig â gofynion ar gyfer anabledd, gan gynnwys amgylcheddau ystyriol o ddementia.</p> <p>Cydnabyddir bod y wardiau yn Ysbyty Sirol yn anaddas ar gyfer proffil y cleifion ar hyn o bryd, a</p>	Y Tîm Nyrsio Corfforaethol / Nyrs Arwain Isadrannol	l'w chadarnhau gan y tîm corfforaethol

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		rhoddwyd sicrwydd bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer gwella.		
15	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau, yn enwedig o ran sicrhau bod staff yn cydymffurfio'n gyson â chanllawiau hylendid dwylo a'r defnydd priodol o offer diogelwch personol.	<p>Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo misol. Mae'r archwiliadau yn dangos bod cydymffurfiad o ran hylendid dwylo yn 95% neu'n uwch ar gyfer pob ward yn Ysbyty Sirol. Gofynnir i'r nyrs heintiau ac atal cyswllt isadrannol adolygu a gwneud unrhyw argymhellion o ran y defnydd o gyfarpar diogelu personol i sicrhau cydymffurfiad.</p> <p>Mae uwchgyfeirio pryderon ynghylch amgylchedd gofal yr Ysbyty Sirol – effaith ar iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau – wedi cael ei wneud a'i gynnwys ar y gofrestr risg uchel isadrannol.</p>  <p>County Environment (2).doc</p>	Uwch Nyrs / Nyrs Arwain IPAC	Ar unwaith
16	Dylai staff adolygu ymhellach sut y mae prydau yn cael eu dosbarthu i gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn boeth. Dylid cynnig y cyfle i gleifion olchi eu dwylo cyn amser bwyd.	Gofynnwyd am orchuddion plât gan yr adran arlwygo. Cynghorwyd staff domestig a nyrsio i'w defnyddio. Mae gorchuddion plât ar y troli arlwygo yn ystod pob amser bwyd erbyn hyn.	Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>Nododd arolygiad diweddar a gynhaliwyd ym mis Medi 2016 ar ward Wysg gan ddefnyddio'r offeryn arolygu ar gyfer archwiliadau ansawdd iechyd fod y cleifion hynny y siaradwyd â nhw oll wedi dweud y rhoddwyd cyfle iddynt olchi eu dwylo yn y sinc neu gyda lliainiau gwlyb Clinell (llyain gwlyb glanhau cyffredinol â nodweddion gwrth-facterol sydd ar gael ym mhob man clinigol). Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo misol i roi sicrwydd bod staff wardiau yn bodloni safonau. Mae ward Wysg wedi cynnal cydymffurfriad rhwng 90% a 100% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd ward Wysg am ei harfer canmoladwy o ran ei chyfraddau heintiau cysylltiedig â gofal iechyd isel.</p>		
16	<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, pan ddefnyddir cwpanau wedi'u haddasu, bod anghenion a dymuniadau cleifion wedi cael eu hasesu o ran defnyddio'r cwpanau hyn, a'u bod yn fodolau priodol sy'n diwallu anghenion y claf.</p>	<p>Ymchwiliwyd a threialwyd cwpanau eraill. Gofynnwyd am farn y cleifion ar y cwpanau newydd. Derbyniwyd adborth a oedd yn dynodi bod yn well ganddynt y cwpanau a oedd yn cael eu defnyddio cynt.</p>	<p>Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs</p>	<p>Cyflawnwyd</p>
16	<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu pam nad oes gwelliannau wedi eu gwneud eto o ran defnyddio a diweddarau siartiau bwyd a</p>	<p>Mae'r Dirprwy Brif Nyrs wedi cael trafodaethau gyda'r tîm deietetig ynghylch argymhellion ar</p>	<p>Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs</p>	<p>Ar unwaith</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	hylif yn gyson – a dylid gwneud gwelliannau yn hyn o beth.	<p>gyfer hyd y defnydd, yn unol ag asesiad unigol parhaus o angen cleifion, ac wedi gofyn am ganllawiau ar bryd y dylid dirwyn siartiau bwyd i ben.</p> <p>Caiff staff eu hysbysu wrth drosglwyddo'n ddyddiol/ar yr hysbysfwrdd cipolwg ar statws cleifion am gleifion sydd angen asesiad parhaus trwy siart bwyd Cymru gyfan yn dibynnu ar anghenion unigol.</p>		
17	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau wythnosol o gyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn gyson a'u cofnodi yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Dylid monitro a chofnodi tymheredd oergelloedd yn gyson hefyd.	<p>Adolygiad o'r gofrestr cyffuriau a reolir yn ystod archwiliadau wythnosol ac uwchgyfeirio os bydd diffyg cydymffurfiad. I gael ei adrodd fel digwyddiad niweidiol mewn achos o ddiffyg cydymffurfiad.</p> <p>Gweithdrefn weithredu safonol ar waith ar gyfer gwirio cyffuriau a reolir wrth eu rhoi i sicrhau bod archwiliadau dau berson ar waith.</p> <p>Caiff y weithdrefn wirio ei chynnwys yng ngweithdrefnau monitro'r ward.</p>	Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs	Ar unwaith
17	Mae'n rhaid rhoi cyngor priodol i'r ward ynghylch storio'r silindr ocsigen yn y coridor er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio'n	Derbyniwyd sicrwydd yn dilyn yr adolygiad diwethaf o'r cynllun gweithredu ym mis Medi	Rheolwr y Ward /	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ddiogel ac yn briodol.	2016 bod yr Adran Gwaith ac Ystadau wedi cwblhau'r cais i osod mecanwaith y gellir ei gloi i lynu'r silindr ocsigen at y wal, gan gynnwys rhybudd o berygl. Bydd hyn yn cael ei ailystyried i sicrhau y cymerir unrhyw gamau unioni.	Uwch Nyrs	
18	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y staff fynediad at yr offerynnau sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i gyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion â cholled clyw ac anghenion cyfathrebu ychwanegol.	Darparwyd tactegau ymwybyddiaeth o bobl fyddar a chyfathrebu i holl staff y ward. Mae dolenni sain ar gael ar y ward. Y staff i sicrhau defnydd priodol ar gyfer cleifion ag anghenion penodol. Bydd hyn yn cael ei wneud wrth drosglwyddo a bydd dangosydd symbol yn cael ei ddefnyddio ar yr hysbysfwrdd cipolwg ar statws cleifion.	Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs	Ar unwaith
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
21	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael eu cynorthwyo i gadw'n gyfredol o ran hyfforddiant ar draws pob maes ar sail barhaus.	Bydd staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant ar-lein i sicrhau cydymffurfiad. Mae hyfforddiant ar-lein ar gael yn uniongyrchol i'r holl staff trwy'r Cofnod Staff Electronig ers mis Hydref 2016. Rheolwr y Ward i drafod â'r tîm iechyd a diogelwch corfforaethol i drefnu sesiynau a addysgir mewn ystafell ddosbarth i gynorthwyo'r staff i sicrhau cydymffurfiad. Caiff unrhyw feysydd	Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs	Chwefror 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		sydd â lefelau uchel o ddiffyg cydymffurfiad eu huwchgyfeirio ar gyfer sylw trwy'r tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r fforymau iechyd a diogelwch perthnasol.		
21	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system gadarn ar waith i ganiatáu trosolwg digonol a sicrhau bod camau gweithredu yr ymrwymir iddynt yng nghynlluniau gwella AGIC yn cael eu cyflawni ar sail barhaus.	Bydd y cynllun gweithredu a ddatblygwyd yn dilyn arolygiad diweddaraf AGIC yn cael ei adolygu bob mis yn ystod cyfarfodydd un i un yr uwch nyrs a rheolwr y ward ac yn cael ei fonitro drwy'r grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion isadrannol i sicrhau y derbynnir sicrwydd ynghylch cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion a amlinellwyd. Bydd unrhyw bryderon neu anawsterau a wynebir yn ystod yr amserlenni a bennwyd hefyd yn cael eu huwchgyfeirio ar gyfer camau unioni drwy'r fforwm hwn.	Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs	Ar unwaith ac yn barhaus

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras):

Lin Slater

Teitl:

Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol

Dyddiad:

9 Ionawr 2017

